
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2013 Rhif (Cy.)

2013 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Cilfan Tangiers, Man i'r Gogledd o
Hwlffordd, Sir Benfro) (Gwahardd
Aros a Chyfyngu ar Aros) 2013

The A40 Trunk Road (Tangiers
Lay-by, North of Haverfordwest,
Pembrokeshire) (Prohibition and
Restriction of Waiting) Order 2013

Gwnaed 24 Gorffennaf 2013

Made 24 July 2013

Yn dod i rym 25 Gorffennaf 2013

Coming into force 25 July 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), a phob pŵer galluogi arall(2), ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the London – Fishguard Trunk Road (A40) (hereinafter referred to as "the trunk road"), in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2) and 4(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) (hereinafter referred to as "the 1984 Act") and of all other enabling powers(2) and after consultation with the Chief Officer of the Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Gorffennaf 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cilfan Tangiers, Man i'r Gogledd o Hwlffordd, Sir Benfro) (Gwahardd Aros a Chyfyngu ar Aros) 2013.

1. This Order comes into force on 25 July 2013 and its title is The A40 Trunk Road (Tangiers Lay-by, North of Haverfordwest, Pembrokeshire) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 2013.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn –

2. (1) In this Order –

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn Rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(3);

"disabled person's badge" ("*bathodyn person anabl*") has the meaning given in Regulation 2 of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(3);

mae i "disg barcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn Rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(4).

"parking disc" ("*disg barcio*") has the meaning given in Regulation 8(5) of the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(4).

(2) At ddiben y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:

(2) For the purpose of this Order a vehicle shall be regarded as displaying:

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:-

- (a) yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
- (b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) disg barcio yn y lle perthnasol:-

- (a) yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
- (b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad a Chyfyngiadau

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch am gyfnod sy'n fwy nag awr mewn unrhyw gyfnod o ddwy awr unrhyw ddiwrnod.

5. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6(1), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd sy'n arddangos

(i) a disabled person's badge in the relevant position if:-

- (a) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited thereon so that the front of the badge is clearly legible from the outside of the vehicle; or
- (b) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited in a conspicuous position in or on the vehicle so that the front of the badge is clearly legible from outside the vehicle; and

(ii) a parking disc in the relevant position if:-

- (a) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel the disc is exhibited thereon so that the quarter-hour period during which the period of waiting began is clearly legible from outside the vehicle; or
- (b) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel the disc is exhibited in a conspicuous position in or on the vehicle so that the quarter-hour period during which the period of waiting began is clearly legible from outside the vehicle.

(3) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

Prohibition and Restrictions

3. Save as provided in article 6, no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait at any time on the sides of the length of the trunk road specified in Schedule 1.

4. Save as provided in article 6, no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the side of the length of the trunk road specified in Schedule 2 between 08:00 hours and 18:00 hours for a period exceeding 1 hour in any period of 2 hours on any day.

5. Save as provided in article 6(1), no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle, other than a vehicle displaying a disabled person's

bathodyn person anabl, aros ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 am gyfnod sy'n fwy na dwy awr mewn unrhyw gyfnod o dair awr unrhyw ddiwrnod.

Esemptiadau

6. (1) Ni fydd dim yn erthyglau 3, 4 a 5 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, sef: -

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell deilegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(5);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i aros pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

i. pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

ii. pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu

badge, to wait on the side of the length of the trunk road specified in Schedule 3 for a period exceeding 2 hours in any period of 3 hours on any day.

Exemptions

6. (1) Nothing in articles 3, 4 and 5 shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in the lengths of the trunk road referred to therein for so long as may be necessary to enable:-

(a) a person to board or alight from a vehicle;

(b) goods to be loaded on or unloaded from the vehicle;

(c) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purpose in any other road, to be used in connection with any of the following operations, namely: -

(i) building, industrial or demolition operations;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of the trunk road; or

(iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to, the said lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any telegraphic line as defined in the Communications Act 2003(5);

(d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory powers or duties;

(e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the said lengths of the trunk road;

(f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(g) the vehicle stopping when the person in control of it:

i. is required by law to stop;

ii. is obliged to stop in order to avoid an accident; or

iii. is prevented from proceeding by circumstances outside his control.

- iii. pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

(2) Ni fydd dim yn erthyglau 3 na 4 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n dangos yn y lle perthnasol fathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi amynt yr amser pryd y cychwynnodd y cyfnod aros) i aros ar unrhyw ochr o'r darn o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr erthyglau am gyfnod nad yw'n fwy na thair awr, gydag awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar unrhyw ochr o'r darn penodedig o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Gorffennaf 2013



RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraff 61 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

(3) O.S. 2000/1786

(4) O.S. 2000/1785

(5) 2003 p.21

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwahardd Aros (Ar unrhyw adeg)

Y darn o ochr orllewinol y gilfan sy'n ymestyn o ben gogleddol yr ynys balmantog sy'n gwahanu'r gilfan oddi wrth brif gerbyttffordd y gefnffordd i ben deheuol yr ynys balmantog honno, sef pellter o 128 o fetrau.

Y darn o ochr ddwyreiniol y gilfan sy'n ymestyn o bwynt 118.5 o fetrau i'r de o ben gogleddol yr ynys balmantog i ben deheuol y tapr ymadael â'r gilfan, sef pellter o 30 o fetrau.

(2) Nothing in articles 3 and 4 shall render it unlawful to cause or permit a disabled person's vehicle which displays in the relevant position a disabled persons badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on any of the sides of the length of the trunk road referred to therein for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least one hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on any of those sides of the specified length of the trunk road specified in Schedules 1 and 2.

Signed under authority of the Minister for Economy, Science and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 24 July 2013



RICHARD MORGAN
Head of Asset Management and Standards
Welsh Government

(1) 1984 c.27; Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales

(3) S.I. 2000/1786

(4) S.I. 2000/1785

(5) 2003 c.21

SCHEDULES

SCHEDULE 1 Prohibition of Waiting (At any time)

The length of the western side of the lay-by that extends from the northern extent of the paved island segregating the lay-by from the main carriageway of the trunk road to the southern extent of the said paved island, a distance of 128 metres.

The length of the eastern side of the lay-by that extends from a point 118.5 metres south of the northern extent of the paved island to the southern extent of the exit taper from the lay-by, a distance of 30 metres.

ATODLEN 2

Cyfyngu ar Aros

(Cyfyngir i awr mewn unrhyw gyfnod o ddwy awr rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch unrhyw ddiwrnod)

Y darn o ochr ddwyreiniol y gilfan sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r de o ben gogleddol yr ynys balmantog sy'n gwahanu'r gilfan oddi wrth brif gerbyttffordd y gefnffordd i bwynt 118.5 o fetrau i'r de o ben gogleddol yr ynys balmantog honno, sef pellter o 90.5 o fetrau.

ATODLEN 3

Deiliaid Bathodyn Anabledd yn Unig

(Cyfyngir y cyfnod aros i ddwy awr mewn unrhyw gyfnod o dair awr unrhyw ddiwrnod)

Y darn o ochr ddwyreiniol y gilfan sy'n ymestyn o bwynt 17 o fetrau i'r de o ben gogleddol yr ynys balmantog sy'n gwahanu'r gilfan oddi wrth brif gerbyttffordd y gefnffordd i bwynt 28 o fetrau i'r de o ben gogleddol yr ynys balmantog honno, sef pellter o 11 o fetrau.

SCHEDULE 2

Restricted Waiting

(Limited to 1 hour in any period of 2 hours between 08:00 hours and 18:00 hours on any day)

The length of the eastern side of the lay-by that extends from a point 28 metres south of the northern extent of the paved island segregating the lay-by from the main carriageway of the trunk road to a point 118.5 metres south of the northern extent of the said paved island, a distance of 90.5 metres.

SCHEDULE 3

Disabled Badge Holders Only

(Waiting limited to 2 hours in any period of 3 hours on any day)

The length of the eastern side of the lay-by that extends from a point 17 metres south of the northern extent of the paved island segregating the lay-by from the main carriageway of the trunk road to a point 28 metres south of the northern extent of the said paved island, a distance of 11 metres.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CILFAN
TANGIERS, MAN I'R GOGLEDD O
HWLFFORDD, SIR BENFRO) (GWAHARDD
AROS A CHYFYNGU AR AROS) 2013**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn, drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1, 2 a 4 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'i effaith yw gwahardd aros a chyfyngu ar aros (gyda rhai esemptiadau) yng nghilfan Tangiers ar gefnffordd yr A40, i'r gogledd o Hwlffordd, Sir Benfro, fel y'i pennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn. Daw'r Gorchymyn i rym ar 25 Gorffennaf 2013.

Yn ystod cyfnod o chwe wythnos o 24 Gorffennaf 2013 ymlaen, gellir gweld copi o'r Gorchymyn ynghyd â phlan cysylltiedig yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghyngor Sir Benfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1063829.


Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn chwe wythnos i 24 Gorffennaf 2013, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu i ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (detholer: Deddfwriaeth/ Is-Ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/2013).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (TANGIERS LAY-BY,
NORTH OF HAVERFORDWEST,
PEMBROKESHIRE) (PROHIBITION AND
RESTRICTION OF WAITING) ORDER 2013**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1, 2 and 4 of the Road Traffic Regulation Act 1984, the effect of which is to prohibit and restrict (with certain exemptions) waiting in the Tangiers lay-by on the A40 trunk road, north of Haverfordwest, Pembrokeshire, as specified in the Schedules to this Notice. The Order comes into force on 25 July 2013.

During a period of 6 weeks from 24 July 2013 a copy of the Order and associated plan may be inspected during normal office hours at Pembrokeshire County Council, County Hall, Haverfordwest, Pembrokeshire SA61 1TP or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1063829.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- that any of the relevant requirements has not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 24 July 2013, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2013).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwahardd Aros (Ar unrhyw adeg)

Y darn o ochr orllewinol y gilfan sy'n ymestyn o ben gogleddol yr ynys balmantog sy'n gwahanu'r gilfan oddi wrth brif gerbyttfordd y gefnffordd i ben deheuol yr ynys balmantog honno, sef pellter o 128 o fetrau.

Y darn o ochr ddwyreiniol y gilfan sy'n ymestyn o bwynt 118.5 o fetrau i'r de o ben gogleddol yr ynys balmantog i ben deheuol y tapr ymadael â'r gilfan, sef pellter o 30 o fetrau.

ATODLEN 2 Cyfyngu ar Aros (Cyfyngir i awr mewn unrhyw gyfnod o ddwy awr rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch unrhyw ddiwrnod)

Y darn o ochr ddwyreiniol y gilfan sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r de o ben gogleddol yr ynys balmantog sy'n gwahanu'r gilfan oddi wrth brif gerbyttfordd y gefnffordd i bwynt 118.5 o fetrau i'r de o ben gogleddol yr ynys balmantog honno, sef pellter o 90.5 o fetrau.

ATODLEN 3 Deiliaid Bathodyn Anabledd yn Unig (Cyfyngir y cyfnod aros i ddwy awr mewn unrhyw gyfnod o dair awr unrhyw ddiwrnod)

Y darn o ochr ddwyreiniol y gilfan sy'n ymestyn o bwynt 17 o fetrau i'r de o ben gogleddol yr ynys balmantog sy'n gwahanu'r gilfan oddi wrth brif gerbyttfordd y gefnffordd i bwynt 28 o fetrau i'r de o ben gogleddol yr ynys balmantog honno, sef pellter o 11 o fetrau.

SCHEDULES

SCHEDULE 1 Prohibition of Waiting (At any time)

The length of the western side of the lay-by that extends from the northern extent of the paved island segregating the lay-by from the main carriageway of the trunk road to the southern extent of the said paved island, a distance of 128 metres.

The length of the eastern side of the lay-by that extends from a point 118.5 metres south of the northern extent of the paved island to the southern extent of the exit taper from the lay-by, a distance of 30 metres.


SCHEDULE 2 Restricted Waiting (Limited to 1 hour in any period of 2 hours between 08:00 hours and 18:00 hours on any day)

The length of the eastern side of the lay-by that extends from a point 28 metres south of the northern extent of the paved island segregating the lay-by from the main carriageway of the trunk road to a point 118.5 metres south of the northern extent of the said paved island, a distance of 90.5 metres.

SCHEDULE 3 Disabled Badge Holders Only (Waiting limited to 2 hours in any period of 3 hours on any day)

The length of the eastern side of the lay-by that extends from a point 17 metres south of the northern extent of the paved island segregating the lay-by from the main carriageway of the trunk road to a point 28 metres south of the northern extent of the said paved island, a distance of 11 metres.

DO NOT SCALE



KEY	
—	EXTENT OF 00:00 TO 23:59 MONDAY TO SUNDAY DISABLED BADGE HOLDERS ONLY WAITING RESTRICTIONS
—	EXTENT OF 08:00 TO 18:00 MONDAY TO SUNDAY WAITING RESTRICTIONS
—	EXTENT OF PROHIBITED WAITING AT ANY TIME

GENERAL NOTES	
1.	ALL DIMENSIONS ARE IN METRES UNLESS NOTED OTHERWISE.
2.	ONLY WRITTEN DIMENSIONS SHALL BE USED, DO NOT SCALE.

Rev	Description	Date	By	Check
1	PROVISION OF WAITING EXTENT ROAD LAY-BY	21/07/12	JR	TAD
2	AMENDMENT TO LAY-BY	21/07/12	JR	TAD
3	PROVISION OF WAITING EXTENT ROAD LAY-BY	21/07/12	JR	TAD
4	AMENDMENT TO LAY-BY	21/07/12	JR	TAD
5	PROVISION OF WAITING EXTENT ROAD LAY-BY	21/07/12	JR	TAD
6	AMENDMENT TO LAY-BY	21/07/12	JR	TAD

Client: Llywodraeth Cymru
Welsh Government

South Wales Trunk Road Agency
Head of Trunk Road Agency

Project: A40 RIDGWAY LAY-BY TO TANGIERS MAJOR MAINTENANCE

ATKINS

Project: A40 RIDGWAY LAY-BY TO TANGIERS MAJOR MAINTENANCE

RIDGWAY LAY-BY WAITING RESTRICTIONS	
Drawn By: A3	As Shown
Check: P	5113708_401/HW/TO/003
Status: P	C